Senedd Cymru
**Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith**

# Adroddiad ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr

Chwefror 2025

## Ein dull ni

**1.** Ar 8 Awst 2024, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru ('yr Ysgrifennydd Cabinet') Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar gyfer Bil Ynni Prydain Fawr gerbron y Senedd. Gosododd y Pwyllgor ei adroddiad ar 21 Hydref. Ymatebodd Llywodraeth Cymru ar 3 Rhagfyr.

**2.** Ar 24 Ionawr 2025, gosododd Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 2) (y Memorandwm Atodol) gerbron y Senedd. Ar 28 Ionawr, cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y Memorandwm Atodol at y Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith ('y Pwyllgor'), a'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad oedd 3 Chwefror.

**3.** Bu'r Pwyllgor yn trafod y Memorandwm Atodol yn ei gyfarfod ar 30 Ionawr 2025.

### Gwelliannau i'r Bil sydd angen cydsyniad

**4.** O dan gymal 5 o'r Bil, rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol baratoi datganiad ynghylch blaenoriaethau strategol Great British Energy. Yn unol â'r hyn a

ddrafftiwyd yn wreiddiol, roedd gofyn i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru i'r graddau y mae'r datganiad yn ymwneud â materion sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd.

**5.** Mae Llywodraeth y DU wedi cyflwyno gwelliannau i gymal 5 at ddibenion dileu'r gofyniad i ymgynghori â Gweinidogion Cymru a rhoi gofyniad cryfach yn ei le at ddibenion ceisio cydsyniad Gweinidogion Cymru.

## Ein barn ni

Yn ein hadroddiad ar y Memorandwm cyntaf, gwnaethom nodi'r canlynol: *"…rydym yn pryderu mai dim ond ymgynghori â Gweinidogion Cymru y mae'n ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ei wneud, yn hytrach na cheisio cydsyniad Gweinidogion Cymru ar gyfer unrhyw flaenoriaethau strategol sy'n ymwneud â materion datganoledig."* Rydym yn falch bod Llywodraeth Cymru wedi sicrhau gwelliant i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Gwnaethom ddweud hefyd y dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro sut yr ymgynghorir â'r Senedd ar flaenoriaethau strategol sy'n ymwneud â materion datganoledig yn y dyfodol. Byddem yn ddiolchgar pe byddai'r Ysgrifennydd Cabinet yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn ystod y ddadl ar y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.